

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

‘Pe Bai’n Blentyn i Mi’

‘If This Were My Child’

Q11 Gwenda Thomas: Will the First Minister make a statement on the recently launched ‘If This Were My Child’ document, jointly published by the Welsh Assembly Government and the Welsh Local Government Association? OAQ0399(FM)

C11 Gwenda Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ddogfen ‘Pe Bai’n Blentyn i Mi’ a lanswyd yn ddiweddar, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? OAQ0399(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Jane Hutt, the Minister with responsibility for children, launched this excellent guide for councillors on 23 March at a conference on corporate parenting arranged by the Welsh Assembly Government and the Welsh Local Government Association. The guide and the conference are fine examples of ‘Making the Connections’ in action.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Lansiodd Jane Hutt, y Gweinidog sy’n gyfrifol am faterion plant, y llawlyfr rhagorol hwn i gynghorwyr ar 23 Mawrth mewn cynhadledd ynghylch rhianta corfforaethol a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae’r llawlyfr a’r gynhadledd yn enghreifftiau gwyb o amcanion ‘Creu’r Cysylltiadau’ ar waith.

Y Diwydiant Gweithgynhyrchu

The Manufacturing Industry

C12 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y diwydiant gweithgynhyrchu? OAQ0381(FM)

Q12 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on the manufacturing industry? OAQ0381(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd y diwydiant gweithgynhyrchu yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatblygu economi Cymru.

The First Minister: The manufacturing industry will continue to play a significant role in the development of the Welsh economy.

Gwasanaethau Meddygon Teulu yn y Canolbarth

GP Services in Mid Wales

Q13 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on provision of out-of-hours GP services in Mid Wales? OAQ0384(FM)

C13 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wasanaethau meddygon teulu a ddarperir y tu allan i oriau arferol yn y Canolbarth? OAQ0384(FM)

The First Minister: Out-of-hours services

Y Prif Weinidog: Mae’r gwasanaethau a

across mid Wales are working well. Local health boards are monitoring the performance of their respective providers and looking for continual performance improvement. The Welsh Assembly Government also undertakes performance monitoring against the agreed quality standards.

ddarperir y tu allan i oriau arferol ar draws y Canolbarth yn effeithiol. Mae'r byrddau iechyd lleol yn monitro perfformiad y gwahanol ddarparwyr ac yn disgwyl iddynt wella'n barhaus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn monitro'u perfformiad o ran bodloni'r safonau ansawdd y cytunwyd arnynt.

Y Cynllun Stoc Trig The Fallen Stock Scheme

Q14 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on the fallen stock scheme in Wales? OAQ0386(FM)

C14 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynllun stoc trig yng Nghymru? OAQ0386(FM)

The First Minister: Carwyn Jones, the Minister for Environment, Planning and Countryside, issued a statement on Friday 8 April setting out the short and medium term actions being taken forward to address the problems currently being experienced in north and mid Wales

Y Prif Weinidog: Cyhoeddodd Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ddatganiad ddydd Gwener, 8 Ebrill, yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canolig i fynd i'r afael â'r problemau a geir ar hyn o bryd yn y Gogledd a'r Canolbarth.

Prydau Ysgol School Dinners

Q15 Peter Black: What is the Assembly Government doing to provide children with nutritious and locally sourced school dinners? OAQ0396(FM)

C15 Peter Black: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i ddarparu prydau ysgol maethlon sy'n defnyddio cynnyrch lleol i blant. OAQ0396(FM)

The First Minister: One of the top 10 actions of the Assembly's sustainable development action plan is to work with local education authorities and governing bodies so that specifications for school meals address issues of health and nutrition and food seasonality, as the contracts come up for renewal.

Y Prif Weinidog: Un o 10 prif gam cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy y Cynulliad yw gweithio gydag awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu i sicrhau bod manylebau'r contractau ar gyfer darparu prydau ysgol yn ymdrin â materion iechyd a maeth, ynghyd â bwydydd tymhorol, pan fydd angen adnewyddu'r contractau hynny.